Prosiect Treftadaeth Gymunedol Wrecsam

Newyddion Treftadaeth Cyhoeddiad Rhif 2

Un o'r lluniadau gwreiddiol a ddarparwyd gan y dylunwyr, Bright 3D

Datgymalu'r cyntedd teilsiog yn ofalus yn barod i fynd i storfa

Dros yr ychydig wythnosau diwethaf mae'r prosiect wedi cyrraedd carreg filltir bwysig gyda phenodi'r prif gontractwr adeiladu. Cwmni yw ISG gyda hanes rhagorol o waith ar brosiectau tebyg i'n prosiect ni. Mae wedi gweithio ar Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yng Nghastell Caernarfon, Amgueddfa Ryfel Ymerodrol y Gogledd ym Manceinion ac, ar hyn o bryd, mae'n adeiladu'r trac beiciau ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 yn Llundain.

Cymrodd y contractwyr feddiant o'r amgueddfa ar 8fed Mawrth a dechreuodd gwaith yn fuan wedyn. Bydd llawer o'r gweithgaredd yn digwydd o'r golwg i raddau helaeth nes caiff yr estyniad gwydr newydd ei ychwanegu yn agos at ddiwedd y cyfnod adeiladu. Yn dilyn y gwaith hwn fydd cyfnod ailosod yr arddangosfa. Mae hyn yn cynnwys gosod casys arddangos a'r arddangosfeydd newydd eu hunain, cyn i'r gwrthrychau ddod yn ôl o'r storfa i'w harddangos. Dylai'r gwaith hwn i gyd fod wedi'i orffen erbyn yr hydref, gan adael i'r staff ddychwelyd o'r Bers ar ddiwedd y flwyddyn.

Y fan symud glasurol - hollol addas i amgueddfa

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam

Os ydych eisiau gwneud unrhyw ymchwil hanes lleol neu deuluol, yna dylech fynd i Ganolfan Dreftadaeth y Bers, lle mae Canolfan A. N. Palmer ar gyfer Astudiaethau Lleol ac Archifau wedi symud. Yr oriau agor: Dydd Llun - ddydd Gwener 10am - 5pm a dydd Sadwrn 10.30am - 3pm.

Mwy o newyddion ar gael yn www.wrecsam.gov.uk/amgueddfeydd

- BBCCymru yng Nghanolfan Dreftadaeth Y Bers
- Amgueddfa ar Olwynion
- Dod â'r Wlad i'r Dref
- Gyda Chariad o Amgueddfa Wrecsam

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam